**<u>Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-14-01(p.6)W</u>**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **Dydd Iau 24 Hydref 2001**
**Testun y Papur:** **Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar y Defnydd o staff nyrsio Cronfa ac Asiantaeth dros dros yn yr NHS**

## Diben

1. Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi adroddiad y Comisiwn Archwilio ar nyrsys Cronfa ac Asiantaeth yng Nghymru a Lloegr, "*Brief Encounters – getting the best from temporary nursing staff*". Cyhoeddwyd yr adroddiad, sy'n edrych ar y defnydd o nyrsys Cronfa ac Asiantaeth ar draws yr NHS yng Nghymru a Lloegr, ddydd Mercher 5 Medi 2001.

## Cefndir

2. Cynhaliodd y Comisiwn Archwilio arolwg o Ymddiriedolaethau NHS yng Nghymru a Lloegr. Ymatebodd pob un ond un o Ymddiriedolaethau NHS Cymru sy'n cyflogi staff nyrsio.

3. Defnyddir mwy a mwy o staff Cronfa ac Asiantaeth yng Nghymru a Lloegr, ac adroddwyd bod y costau'n cynyddu'n gyflym o ganlyniad. Mae'r adroddiad yn rhoi cyngor i Ymddiriedolaethau ar reoli staff Cronfa ac Asiantaeth yn fwy effeithiol a darbodus er lles gofal y cleifion.

4. Darparwyd copi o'r adroddiad i aelodau'r Pwyllgor, ac mae'n gwneud argymhellion ynghylch y ffordd y gall Ymddiriedolaethau sicrhau ansawdd y gofal, cadw costau dan reolaeth, rheoli galw a gweithio'n fwy effeithlon.

5. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod staff Cronfa ac Asiantaeth, o'u defnyddio'n briodol, yn gallu gwneud cyfraniad enfawr i'r gwaith o ofalu am gleifion, gan alluogi ymddiriedolaethau NHS i gynnal y gwasanaethau a sicrhau parhad trwy wneud iawn am y prinder staff a'r amrywiadau yn y baich gwaith.

6. Serch hynny, adroddodd y Comisiwn Archwilio y gellir tanseilio ansawdd y gofal a roddir i gleifion trwy ddefnyddio staff dros dro mewn ffordd amhriodol. Roedd llawer o'r staff dros dro yn gweithio dros 48 awr yr wythnos. Ni chwblheir archwiliadau i gymwysterau proffesiynol a chofrestriadau staff cyn eu cyflogi bob amser. Ni lynir at y gofynion iechyd galwedigaethol bob amser. Nid yw'n ofynnol ar i'r cyflogwyr ofalu am eu datblygiad proffesiynol parhaus.

7. Mae pob Ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru yn rhedeg ei System Gronfa ei hun. Roedd gan 9 ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau yn diffinio pryd y gellid defnyddio staff Cronfa ac Asiantaeth. Nid oes gan y mwyafrif o'r Ymddiriedolaethau NHS hynny yng Nghymru sy'n defnyddio staff Asiantaeth, drefniadau contractio ffurfiol.

8. Nododd y Comisiwn Archwilio y gallai Ymddiriedolaethau leihau eu costau trwy weithio gydag un asiantaeth, neu nifer fechan ohonynt, o dan drefniadau contractio ffurfiol. Trwy gontractio, gellir pennu cyfraddau is yr awr, a chostau comisiynu is. Argymhellodd y Comisiwn y gellid sefydlu contractau trwy gyfrwng proses dendro gydweithredol rhwng Ymddiriedolaethau ac asiantaethau. Argymhellwyd bod angen buddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth er mwyn sefydlu system gyfrifiadurol ar gyfer rotas staff.

9. Argymhellwyd y dylai hyfforddiant fod yn orfodol ar gyfer staff Cronfa. Mae Cymru'n symud i'r cyfeiriad hwn gyda dros 75% o staff Cronfa 8 ymddiriedolaeth wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am drafod a chodi cleifion; dros 75% o staff 7 ymddiriedolaeth yn cael hyfforddiant blynyddol mewn Sgiliau Cynnal Bywyd Sylfaenol; a 4 ymddiriedolaeth yn rhoi hyfforddiant i'r staff Cronfa mewn rheoli haint.

10. Mae ymddiriedolaethau yng Nghymru wedi recriwtio i'r sefydliadau nyrsio ac wedi cynnwys lwfans ar gyfer gwyliau blynyddol, salwch a chyfnodau astudio.

11. Derbynia nyrsys Asiantaeth gyfraddau tâl uwch. Mae Ymddiriedolaethau hefyd yn talu comisiwn i'r asiantaeth sy'n darparu'r gwasanaeth. Mae'r costau hyn gryn dipyn yn uwch yn ystod cyfnodau allweddol fel gwyliau banc a phenwythnosau.

12. Er mwyn lleihau costau, mae'r adroddiad yn argymell y gallai ymddiriedolaethau gydweithio â'i gilydd a chynyddu'u grym prynu wrth dendro ag asiantaethau.

13. Cost gyffredinol staff nyrsio asiantaeth i NHS Cymru ym 1999-2000 oedd £8 miliwn, o'i gymharu â chyfanswm o dros £520 miliwn bil ar gyfer yr holl staff nyrsio. Y ffigyrau cymharol ar gyfer 2000-2001 yw £9.9 miliwn a £562 miliwn.

**Ystyriaeth**

14. Nododd yr adroddiad bod staff Cronfa ac Asiantaeth yn gwneud cyfraniad enfawr i'r gwaith o ofalu am gleifion, gan alluogi Ymddiriedolaethau'r NHS I gynnal y gwasanaethau a sicrhau parhad trwy wneud iawn am y prinder staff a'r amrywiadau yn y baich gwaith. Serch hynny, rhaid i Ymddiriedolaethau NHS Cymru lenwi swyddi gwag â staff parhaol, a rhoi'r gorau i ddefnyddio staff Cronfa ac Asiantaeth i'w llenwi yn y tymor hir.

15. Rhoddwyd cyfarwyddyd i Ymddiriedolaethau NHS adolygu'u trefniadau contractio ag asiantaethau gyda'r nod o ddefnyddio llai o asiantaethau a chytuno ar ostyngiad yng nghyfraddau'r comisiwn pe bai angen darparu staff llanw tymor byr ar frys.

16. Rhoddwyd cyfarwyddyd i Ymddiriedolaethau adolygu'r ffordd y maent yn rheoli'r defnydd o staff nyrsio dros dro a cheisio sefydlu tîm i fod yn gyfrifol am gydlynu'r trefniadau hyn. Dylid darparu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff Cronfa.

**Camau Gweithredu Ychwanegol**

Bydd Mrs Rosemary Kennedy, y Prif Swyddog Nyrsio, a Mr Stephen Redmond, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol NHS Cymru, yn darparu cynllun gweithredu manwl i'r Pwyllgor, i symud ymlaen â'r ystyriaethau a nodwyd uchod.

18. Trefnir cyfarfod rhwng Mrs Rosemary Kennedy, y Prif Swyddog Nyrsio,cynrychiolwyr yr Is-adran Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Adnoddau Dynol Ysbyty Hammersmith yn Llundain i drafod sut y maent hwy wedi ymdrin yn llwyddiannus â materion staff Cronfa ac Asiantaeth.

19. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu Gweithlu Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi gweithlu'r NHS yng Nghymru. Bydd y grp hwn yn adolygu'r defnydd o staff dros dro yn yr NHS ac yn gwneud argymhellion i'r Cynulliad ar y gweithlu y bydd ei angen yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**

20. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'w codi ar hyn o bryd. Mae Is-adran Cyllid yr NHS (DJS065) wedi gweld y cyflwyniad hwn ac wedi nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad o ganlyniad iddo. Serch hynny, mae'r costau cynyddol i'r gwasanaeth yn destun pryder. Mae Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth yr NHS yn mynd i'r afael â hyn gyda'r Ymddiriedolaeth dan sylw, gyda'r nod o gytuno ar gynllun gweithredu manwl i reoli'r gweithlu a gofal cleifion, a'r canlyniadau ariannol a amlinellwyd gan y Comisiwn Archwilio.

**Cydymffurfio**

21. Mae Deddf y Weinyddiaeth Iechyd 1919 yn ymdrin â chamau sy'n ffafriol I iechyd y cyhoedd. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn ymdrin â gwasanaethau sy'n ymwneud â iechyd. Trosglwyddwyd grymoedd ar gyfer y ddwy Ddeddf i'r Cynulliad. Mae adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn darparu'r grym i'r Cynulliad wneud unrhyw beth i hwyluso unrhyw un o'i swyddogaethau neu wneud unrhyw beth sy'n gydnaws ag arfer y swyddogaethau hynny. Ymdrinnir â gwariant yn adran 85(2). Dirprwywyd y rhain i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb yn codi. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad wedi gweld y cyflwyniad hwn, ac mae'n fodlon ag ef.

**Camau Gweithredu i'r Pwyllgor**

22. Gwahoddir y pwyllgor i nodi adroddiad y Comisiwn Archwilio a'r camau a gymer y Cynulliad i fynd i'r afael â'r materion y mae'n eu codi.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt**

Tina Donnelly, yr Is-adran Nyrsio, Est. 3918